# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts a Barry Mellor.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Addysg (KE); Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG); Prif Reolwr Cefnogi Addysg (GD); Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Uwch-syrfëwr Prisio ac Eiddo (MJ); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## Y CYNGHORYDD RAYMOND BARTLEY – TEYRNGED

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r Cynghorydd Raymond Bartley a fu farw ychydig cyn y Nadolig. Bu'r Cynghorydd Bartley yn arsylwi'r Cabinet yn gyson ac roedd wastad yn barod i gyfrannu os teimlai fod angen iddo wneud hynny. Roedd yn gynghorydd poblogaidd ac uchel ei barch, ac yn gydweithiwr y bydd pawb yn gweld colled ar ei ôl. Roedd y Pwyllgor yn meddwl am y teulu ar yr adeg hon. Safodd yr aelodau a'r swyddogion fel teyrnged dawel.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Bobby Feeley gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen gan ei bod yn aelod o Bwyllgor Canolfan Awelon.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 YSGOL GATHOLIG 3-16 ARFAETHEDIG YN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad gan ofyn am gymeradwyaeth i ddechrau cynigion ymgynghori i gau Ysgol Gatholig Mair (Cynradd 3-11) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones (Uwchradd 11-16) ar 31 Awst 2019 ac agor ysgol Gatholig 3-16 newydd ar yr un safle ar 1 Medi 2019.

Bu ymrwymiad cychwynnol ar gyfer darpariaeth ffydd gyfun, uwchradd ond roedd trafod helaeth â phartneriaid wedi golygu cynnig prosiect am Ysgol Gatholig newydd yn lle’r ddarpariaeth sydd yn y Rhyl ar hyn o bryd. Roedd y Cynghorydd Williams yn falch o gyflwyno’r adroddiad, a oedd wedi cymryd cryn dipyn o amser i gyrraedd y fan hon, a dywedodd y byddai ymgynghoriad ar y cynnig yn cychwyn mewn partneriaeth ag Esgobaeth Gatholig Wrecsam, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet. Roedd mwy o fanylion am y broses ymgynghori, amserlenni, achos busnes a'r goblygiadau ariannol o gyflawni'r prosiect wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

Bu i’r Cabinet groesawu cynigion i fuddsoddi mewn Ysgol Gatholig newydd yn y Rhyl yn lle’r ddarpariaeth bresennol. Codwyd cwestiynau ynglŷn ag amryw agweddau’r cynnig, gan gynnwys y broses ymgynghori a’r gofynion ariannu.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a’r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- rhoddwyd eglurhad am ofynion ariannu'r prosiect gan ddweud y byddent yn dod yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – er bod y rhaglen gyfan yn cael ei hariannu ar sail 50/50 rhwng Llywodraeth Cymru a’r Cyngor, byddai’r swm gwirioneddol yn wahanol ar gyfer cynlluniau unigol
- cafwyd sicrwydd bod cefnogaeth ar y cyd ar gyfer y cynnig gan y ddau Gorff Llywodraethu ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam a byddai ymdrechion i sicrhau proses ymgynghori gadarn a phriodol
- er bod y model 3-16 yn newydd i Sir Ddinbych, roedd tystiolaeth gref i’w gefnogi fel cynnig cadarnhaol ac roedd nodweddion penodol o addysg Gatholig y byddai’r model newydd yn eu darparu a’u cryfhau
- amlygwyd y diffyg lleoedd sydd ar gael yn ysgolion uwchradd y Rhyl ar hyn o bryd gan ddweud y byddai'r cynnig yn sicrhau cynaliadwyedd o ran hynny
- o ran buddsoddi yn ysgol y Santes Ffraid, nad oedd yn rhan o’r cynnig bellach, byddai’r ysgol yn cael ei hystyried ochr yn ochr â phrosiectau eraill am gyllid Band B dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- o ran y safle, gan gynnwys maint/cynllun yr ysgol newydd arfaethedig, dywedodd y swyddogion y byddai’r disgyblion yn cael eu haddysgu ar y safle tra roedd y gwaith yn mynd rhagddo ac roeddent yn hyderus y byddai'r agwedd hon

yn cael ei rheoli'n effeithiol. Ystyriwyd hefyd y dylid cadw cae chwarae ar wahân ar gyfer chwaraeon tîm a gweithgareddau allgyrsiol ac y byddai'n cael ei reoli'n briodol.

Croesawodd y Cynghorydd Joan Butterfield y prosiect fel ffordd arall o gyflawni blaenoriaeth adfywio'r Rhyl. Yn ymateb i gwestiynau pellach, tynnodd y swyddogion sylw at y ddogfen ymgynghori ddrafft (wedi'i hatodi i'r adroddiad) a oedd yn cadarnhau y byddai'r ymgynghoriad yn cychwyn mewn partneriaeth ag Esgobaeth Gatholig Wrecsam ar 14 Chwefror tan 27 Mawrth 2017. O ran y cynnig cychwynnol am Ysgol Ffydd Anglicanaidd Gyfun, eglurodd yr Aelod Arweiniol y cyfyngder o ran lleoliad y safle.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo parhau ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Mair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac agor Ysgol Gatholig 3-16 ar yr un safle ar 1 Medi 2019 ac,*

*(b) argymell cymeradwyo'r cyllid er mwyn dechrau ar y cam cynllunio cysyniadol/manwl.*

**6 DIWYGIADAU I ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR**

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn falch o gyflwyno dau aelod o Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd Irving yr adroddiad gan ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygiadau i Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft Sir Ddinbych (atodiad cyfrinachol i'r adroddiad) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd yn ofynnol yn statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gynnal asesiad o anghenion llety preswyl a theithiol Sipsiwn a Theithwyr ac i ddarparu safleoedd pan oedd angen amlwg. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r asesiad gwreiddiol fis Chwefror 2016 ond gofynnwyd am esboniadau cyn ei gyflwyno gerbron gweinidogion i'w gymeradwyo ac roedd angen diwygiadau hefyd, yn sgil dod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn ag amgylchiadau'r unigolion. Roedd y diwygiadau allweddol yn ymwneud â'r angen posibl am safle preswyl yn Sir Ddinbych a'r dull o ddarparu ar gyfer teithio.

Atebodd Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai y cwestiynau fel a ganlyn –

- manylodd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr asesiad gan bwysleisio'r broses ymgynghori sylweddol a rhagweithiol a oedd yn cynnwys cyfweliadau dilynol pellach gan olygu asesiad diwygiedig a'r casgliad bod angen am ddarpariaeth breswyl ar ffurf 6 llain (i ganiatáu am 5 ar hyn o bryd ac 1 ar gyfer angen ychwanegol yn y pum mlynedd nesaf); o ran darpariaeth deithiol, cafwyd llawer o wybodaeth o nifer a lleoliadau gwersylloedd diawdurdod ynghyd â thrafodaethau â'r cymunedau hynny a oedd wedi dweud bod angen safle teithiol (4-5 llain)

- eglurwyd y cyfreithiau a oedd yn rheoli pwerau'r heddlu i ddweud wrth deithwyr am adael tir lle roedd llain addas mewn man arall yn un o ardaloedd yr un awdurdod lleol a gwaith blaenorol a wnaed gyda Chonwy wrth ystyried safle cyfun wedi'i leoli yn Sir Conwy nad oedd yn ymarferol bellach, o ystyried y cyfreithiau hynny – fodd bynnag, sefydlwyd ers hynny bod angen safle yn Sir Ddinbych
- o ran amserlen, byddai angen cyflwyno'r asesiad diwygiedig i Lywodraeth Cymru i brofi pa mor gadarn ydyw cyn ei gyflwyno gerbron y gweinidogion i'w gymeradwyo – ar ôl derbyn cymeradwyaeth, byddai chwiliad ffurfiol am safle'n cychwyn a byddai swyddogion hefyd yn trafod â Chymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas â hynny
- eglurwyd bod gan yr asesiad oes o bum mlynedd ac roedd yr angen hirdymor am leiniau yn y dyfodol yn anhysbys ar hyn o bryd
- gwnaed gwaith costio rhagarweiniol ar wersylloedd diawdurdod a gellid codi rhent ar leiniau preswyl a theithiol; roedd grant gan Lywodraeth Cymru ar gael i sefydlu'r safleoedd ond nid oedd yn cynnwys cael gafael ar dir

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn falch o ddweud bod perthynas waith dda wedi'i sefydlu ag aelodau Cymuned Sipsiwn a Theithwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo newidiadau i Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gofynion ar gyfer -*

*a) safle preswyl yn Sir Ddinbych i Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cynnwys 6 llain i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir, a*

*b) safle teithiol o 4-5 llain i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n teithio drwy'r Sir.*

## 7 CYNLLUNIAU CYMUNEDOL YN Y CYNGOR NEWYDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad ar y cyd â'r Cynghorydd Hugh Jones a ddisgrifiai fodel cynllunio cymunedol newydd y Cyngor, gyda phwyslais penodol ar yr angen i symud oddi wrth Gynlluniau Tref ac Ardal (CTAau) o blaid system hyblyg newydd y gellir ei defnyddio'n fwy eang.

Manylodd y Cynghorydd Evans ar y model newydd arfaethedig a ddatblygwyd ar ôl ymgynghori â Chefnogwyr Trefi a Grwpiau Ardal yr Aelodau (GAAau) ac a ganolbwyntiai ar ddatblygu dull cynllunio cymunedol sy'n galluogi ac sy'n sbardun i'r gymuned, gyda chefnogaeth a chyngor gan y Cyngor pan fo angen. Os byddai'n cael ei gymeradwyo, byddai swyddogion yn datblygu 'pecyn gwaith' i helpu cymunedau i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain. Byddai'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth a chymorth, yn amodol ar gefnogaeth yr Aelod Lleol neu'r GAA i'r prosiect, ac mewn achosion lle nad oedd arweinyddiaeth leol er mwyn helpu i ddatblygu'r ddarpariaeth honno, fel ardaloedd gwledig sydd ar wahân neu ardaloedd difreintiedig. Ni fyddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw gynnig nad oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, a oedd yn groes i amcanion y Cyngor neu nad oedd yn defnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon. Awgrymodd y Cynghorydd Evans i'r Cyngor nesaf lansio'r dull newydd er mwyn codi

ymwybyddiaeth ac er mwyn monitro cynnydd hefyd. Pwysleisiodd y Cynghorydd Hugh Jones gysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol hefyd, a gwerth aelodau lleol yn bod yn rhan o brosesau newydd ac yn eu cefnogi er lles eu cymunedau.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol –

- amlygwyd pwysigrwydd defnyddio profiad a llwyddiannau ar draws y Sir hyd yma ac roedd awgrymiadau am sefydlu cynllun mentora a darparu cronfa/cyfeiriadur data y gallai'r gymuned ei ddefnyddio er mwyn cefnogi a hwyluso datblygu prosiectau newydd, gan gynnwys cyllid a grantiau allanol sydd ar gael i brosiectau cymunedol
- datganwyd pryder na fyddai gan ardaloedd gwledig llai yr awydd na'r sgiliau i ddatblygu syniadau a gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r cymunedau hynny'n dod yn ddifreintiedig o ganlyniad i'r dull newydd. Eglurodd y Cynghorydd Evans y bwriad i sicrhau na fyddai unrhyw gymuned ar eu colled, a derbyniwyd bod angen annog y cymunedau. Byddai'r dull newydd yn helpu i atgyfnerthu cymunedau, bodloni gofynion deddfwriaethol newydd a byddai'n cael ei ddatblygu ymhellach gan y Cyngor newydd yn dilyn dod â CTAau i ben
- cyfeiriwyd at yr angen i ailedrych ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y dull newydd
- roedd rôl Cefnogwyr Trefi yn gysylltiedig â CTAau a chyflawni'r prosiectau hynny, ond o dan y dull cynhwysol newydd, byddai rôl allweddol i'r holl aelodau. Awgrymwyd y dylid trefnu braslun o'r dull newydd a rôl cynghorwyr wrth hwyluso cynllunio cymunedol ar gyfer cyfarfod Briffio'r Cyngor cyn gynted â phosib' yn dilyn etholiadau mis Mai ac y dylid trefnu hyfforddiant penodol i aelodau mewn perthynas â hynny ar y model newydd

Tynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield sylw at grwpiau difreintiedig yn y Rhyl ac er ei bod yn cytuno y dylai cynghorwyr lleol arwain o dan y dull newydd, roedd hi hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth y Cyngor, yn enwedig i grwpiau heb yr arbenigedd i ddatblygu prosiectau na chael gafael ar gyllid.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

(a) *cytuno nad oes angen y Cynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer pob ardal Grŵp Ardal Aelodau yn y Cyngor mwyach, a*

(b) *bod y system newydd o gynllunio cymunedol a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cael ei mabwysiadu.*

## 8 ADRODDIAD AR YR OPSIYNAU AR GYFER DEFNYDDIO CARTREF GOFAL PRESWYL AWELON YN Y DYFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad a oedd yn manylu ar yr opsiynau ar gyfer defnyddio Cartref Gofal Preswyl Awelon yn y dyfodol gan ofyn am gymeradwyaeth i waith trwy opsiynau penodol i barhau â'r cynllun gorau ar gyfer y safle i fodloni anghenion pawb ac i amharu po leiaf bosib' ar y preswylwyr/tenantiaid presennol.

Roedd yr argymhellion wedi'u seilio ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen (a sefydlwyd i adolygu darpariaeth gofal cymdeithasol fewnol y Cyngor) a'r Pwyllgor Archwilio

Perfformiad.  O ganlyniad i hynny, gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad, i drafod gwaith archwilio'r pwyllgor ar ganfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen ar yr astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd ar gyfer safle Awelon yn Rhuthun, a ystyriwyd yn eu cyfarfod ar 6 Ionawr 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Mellor bod y pwyllgor yn credu bod yr argymhellion yn ateb ymarferol i fodloni'r galw am ofal a chefnogaeth ar ffurf trefniadau gofal ychwanegol yn ardal Rhuthun ac i gefnogi gweithgareddau cymunedol trwy ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd.  Cytunodd y pwyllgor y byddai'r prosiect yn elwa o gael ei reoli gan y tri sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd: y Cyngor, Grŵp Cynefin a Phwyllgor Canolfan Awelon – a'r canlyniad oedd yr argymhelliad eu bod yn cydweithio i weithredu'r cynllun gorau ar gyfer y safle ar sail Opsiynau 2a, 2b a 3a yn yr adroddiad. Trafodwyd pob un o'r pump opsiwn yn yr astudiaeth ddichonoldeb ac roedd y pwyllgor yn fodlon nad oedd Opsiwn 1 na 3b yn ymarferol am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.  O ganlyniad, derbyniodd y pwyllgor gasgliad ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen (fel y'u nodir yn adroddiad y Cabinet).  Roedd y pwyllgor wedi ychwanegu at yr argymhelliad y dylid cynnwys trafodaethau ynglŷn â gofynion o ran arwynebedd llawr ar gyfer Canolfan Awelon – nid oedd yr amod hon wedi'i chynnwys yn argymhellion y Cabinet gan y gallai'r trafodaethau ddod o hyd i drefniant gwell ac roedd y Cynghorydd Mellor yn fodlon â'r rhesymeg honno.

Diolchodd yr Arweinydd a'r Cynghorydd Bobby Feeley i'r Cynghorydd Mellor am ei adroddiad cynhwysfawr, a diolchwyd i'r Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad am eu gwaith caled.  Cyfeiriodd y Cynghorydd Feeley at y cynigion am gyfleusterau modern a chynaliadwy a fyddai'n galluogi'r preswylwyr i barhau i fod yn annibynnol a pheidio â phrofi arwahanrwydd cymdeithasol.  Pwysleisiodd y byddai'r argymhellion yn sicrhau po leiaf bosib' o amharu ar y preswylwyr presennol ac y gallent aros ar y safle tra roedd gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, a byddai pawb sydd ynghlwm â'r Ganolfan yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Byddai'r opsiynau a argymhellir, a ddatblygwyd gyda Grŵp Cynefin, yn cynyddu'r nifer o fflatiau gofal ychwanegol i tua 57 a byddai'n cynnwys gofal seibiant a chanolfan gymunedol newydd.  Manylodd y Cynghorydd Feeley ar y broses hirwyntog hyd yma a diolchodd i'r swyddogion am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Talodd deyrnged i'r Cynghorydd Raymond Bartley hefyd, a fu'n aelod ymroddgar a phrysur o'r Grŵp Tasg a Gorffen.

Cydnabu'r Cabinet y gwaith caled a oedd ynghlwm ag adolygu darpariaeth gofal cymdeithasol fewnol y Cyngor a arweiniai at yr argymhellion diweddaraf ar gyfer safle Awelon gan groesawu'r gwaith ailddatblygu a'r buddsoddiad.  Cytunai'r Aelodau â chanfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad mai'r opsiynau a argymhellwyd oedd y ffordd orau o barhau â'r mater a moderneiddio gwasanaethau er lles Rhuthun a'r ardal o'i hamgylch.

Wrth ystyried yr adroddiad, codwyd y materion canlynol –

- pwysleisiodd y Cynghorydd David Smith bwysigrwydd Canolfan Awelon fel cyfleuster cymunedol a oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn

- er ei fod yn cydnabod y trafodaethau a oedd ar fynd ar hyn o bryd i reoli'r trefniadau hynny, roedd y dal i bryderu am effaith y cyfnod adeiladu ar ddefnyddwyr y ganolfan a chredai y dylai'r Cyngor wneud mwy o waith i gynnig cyfleusterau eraill. O ganlyniad i hynny, roedd y Cabinet yn cytuno y dylai eu penderfyniad adlewyrchu proses o ddod o hyd i gyfleusterau addas eraill i'r grwpiau cymunedol hynny eu defnyddio. Nodwyd nad oedd yr effaith negyddol dros dro ar Ganolfan Awelon yn ystod y cyfnod adeiladu wedi'i nodi yn yr Asesiad o Effaith ar Les ac roedd galwadau i sicrhau bod asesiadau'n fwy trylwyr yn y dyfodol
- roedd y Cabinet yn falch o nodi bod Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu polisi Iaith Gymraeg cynhwysfawr a'u bod yn gallu darparu eu holl wasanaethau'n ddwyieithog
- gallai trafodaethau ynglŷn â'r cynllun gorau ddechrau ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r opsiynau ac roedd Grŵp Cynefin yn rhagweld y byddai modd llunio cynigion manwl ar yr opsiwn a ffefrir mewn tua tri mis
- i sicrhau y gellid parhau â'r datblygiad ar amser ac mor rhwydd â phosib', argymhellodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol na ddylid derbyn unrhyw breswylwyr parhaol newydd ar ôl cymeradwyo'r argymhellion. Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am i'r mater o dderbyn gael ei drafod ymhellach rhwng aelodau lleol ac awgrymodd yr Arweinydd i'r mater gael ei drafod yng Ngrŵp Ardal Aelodau Rhuthun.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am nodi yn y cofnodion ei fod yn credu y dylid cadw gwlâu preswyl yn Rhuthun ar gyfer gofal preswyl yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd yn deall yr angen am gyfaddawdu ac roedd wedi'i sicrhau y byddai'r cynigion yn darparu ffordd wahanol o ddarparu gofal sydd o'r un ansawdd ac sydd â gwell cyfleusterau ar y safle. Yn ateb i'w gwestiwn ynglŷn â darparu gofal seibiant yn yr adeilad newydd, soniodd y swyddogion am y drefn mewn cyfleusterau gofal ychwanegol eraill lle roedd fflatiau'n cael eu rhentu a'u dodrefnu ar gyfer gofal seibiant, yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *cadarnhau eu bod wedi pwyso a mesur yr Asesiad o Effaith ar Les yn rhan o'u hystyriaethau;*

*(b)* *cytuno nad yw Opsiynau 1 a 3b o astudiaeth ddichonoldeb Grŵp Cynefin yn opsiynau ymarferol am y rhesymau a nodwyd yn atodiadau 1 a 5, yn y drefn honno, i'r adroddiad;*

*(c)* *cytuno i drafodaethau gael eu cynnal rhwng aelodau lleol, swyddogion, Grŵp Cynefin a phwyllgor Canolfan Awelon i weithio ar Opsiynau 2a, 2b a 3a i barhau â'r cynllun gorau ar gyfer y safle sy'n bodloni anghenion pawb ac sy'n golygu po leiaf bosibl o amharu ar breswylwyr/tenantiaid presennol; a*

*(d)* *gofyn i swyddogion weithio gyda chynrychiolwyr y grwpiau cymunedol sy'n defnyddio Canolfan Awelon ar hyn o bryd i ddod o hyd i gyfleusterau addas eraill iddyn nhw eu defnyddio yn ystod y broses o adeiladu*

*(Ar adeg addas, byddai hyn yn caniatáu gallu clirio safle Awelon a dechrau gwaith ar yr estyniad. Roedd y grŵp tasg a gorffen o'r farn mai datblygu'r nifer uchaf bosib' o unedau Gofal Ychwanegol (fel a nodir yn Opsiwn 2a) fyddai'n creu'r trefniadau gorau ar gyfer darparu Tai Gofal Ychwanegol gyda Chyfleusterau Cymunedol ar safle Awelon. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen mwy o drafod â phwyllgor Canolfan Awelon i sicrhau y gallai'r cynllun terfynol ddarparu'r gweithgareddau cymunedol sydd ar gael eisoes.*

*Roedd hyn yn bodloni'r dewis a ffefrir gan y Cabinet yn dilyn trafod ym mis Mai 2016 (gweler paragraff 2.2 yn yr adroddiad), a byddai'n diogelu hyd at 35 o fflatiau Gofal Ychwanegol eraill ar y safle, gan alluogi'r preswylwyr hynny a oedd yn derbyn gwasanaethau gofal preswyl i aros ar y safle yn ystod y gwaith datblygu os oeddent yn dymuno, yn ogystal â pharhau i ddarparu cyfleusterau cymunedol i hyrwyddo annibyniaeth a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.*

**9 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2017/18**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnydd rhent blynyddol tai Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw.

Soniodd y Cynghorydd Thompson-Hill wrth yr aelodau am ffigurau'r gyllideb a rhagdybiaethau lefel yr incwm a oedd wedi'u cyfrifo gan ystyried Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol a'i dull ar gyfer cynyddu rhenti. Roedd adolygiad blynyddol Cynllun Busnes y Stoc Dai y dangos ei fod yn parhau'n gadarn ac yn ymarferol ac roedd digon o adnoddau ar gyfer rheoli a goruchwylio'r gwasanaeth tai ac anghenion y stoc am fuddsoddi.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol –

- nodwyd y disgwylid o hyd i weinidogion gymeradwyo'r achos busnes i atal gwerthiannau Hawl i Brynu (HiB), er gwaethaf anfon nodiadau atgoffa, a datganodd yr aelodau a'r swyddogion eu rhwystredigaeth yn sgil hynny o ystyried bod yr oedi'n tanseilio gallu'r Cyngor i fuddsoddi a'i fod yn golygu ei fod yn colli mwy o'i stoc dai trwy werthiannau HiB.
- roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd pedwar mis i brofi cadernid yr achos busnes cyn ei gyflwyno gerbron gweinidogion i'w gymeradwyo fis Tachwedd, a allai gymryd hyd at chwe mis arall. Cytunodd y swyddogion i ystyried gyda'r Aelod Arweiniol a oedd angen cefnogaeth wleidyddol. Cynhaliwyd arolwg o garejis y Cyngor ac roedd ymgynghoriad ar hyn o bryd gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau mewn perthynas â safleoedd garejis y Cyngor a oedd â thir y gellid ei ddatblygu ar gyfer tai. Roedd yr arolwg wedi amlygu llawer o waith cynnal a chadw a oedd heb ei wneud. Nid oedd y rhent a oedd yn daladwy yn ddigon i gwrdd â'r gost a byddai'n cymryd blynyddoedd i'w gwblhau. Byddai canfyddiadau'r arolwg ynghyd ag ymarferoldeb defnyddio safleoedd garejis y Cyngor at ddibenion eraill yn cael eu cynnwys mewn adroddiad yn y dyfodol

- o ran Safonau Ansawdd Tai Cymru (ATC), roedd elfennau penodol wedi'u cynnwys a'u monitro o fewn Cynllun Busnes y Stoc Dai ac fe soniodd y

swyddogion am y safon osod well ar gyfer tai a olygai bod Sir Ddinbych yn darparu tai o ansawdd gwell na Safonau ATC

- o ran cynyddu rhenti, disgwylid y byddai pob tenant yn talu'r rhent targed llawn o 2021 ymlaen ac roedd Sir Ddinbych yn anelu at y rhent targed canol, yn amodol ar unrhyw oblygiadau o ddiwygio'r gyfundrefn les.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2017/18 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*

*(b) cynyddu rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â chanllawiau Polisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd fis Ebrill 2015 i rent wythnosol cyfartalog o £81.77 o ddydd Llun 3 Ebrill 2017 ymlaen, a*

*(c) chynyddu rhenti garejis y Cyngor yn unol â'r cynnydd yn rhenti anheddau'r Cyngor i £6.85 i Denantiaid y Cyngor ac £8.22 i Denantiaid eraill, yr wythnos.*

Ar y pwynt hwn (11.45am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 10 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2017/18 yn ôl argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Soniodd y Cynghorydd Thompson-Hill wrth yr aelodau am yr adroddiad ac fe ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn prosiectau un-tro a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus. Cyfeiriwyd at waith y GBS wrth adolygu cynigion am ddyraniadau a darparwyd crynodeb o'u hargymhellion ac fe ymhelaethwyd arno yn y cyfarfod. Roedd y GBS wedi ystyried ystod o brosiectau ac wedi defnyddio dull cyson gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cynnal a chadw. Nodwyd y cynigion penodol roedd y GBS wedi argymell peidio â dyrannu cyllid, neu ddyrannu llai o gyllid ar eu cyfer, yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd yr Arweinydd a'r Cynghorydd Barbara Smith hefyd yn aelodau o'r GBS ac roeddent yn cytuno bod yr un broses adolygu drylwyr wedi'i chynnal ar bob cynnig mewn modd agored a thryloyw. Roedd pob cynnig yn haeddiannol a bu'n broses anodd a heriol iawn, ac roedd y galw'n llawer mwy na'r cyllid a oedd ar gael. Roedd y Cynghorydd Hugh Jones yn falch o nodi bod cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith atgyweirio strwythurol ac fel arall, gan gynnwys pontydd, a byddai adroddiad ar Strategaeth Cynnal a Chadw Pontydd yn cael ei archwilio gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn nes ymlaen yr wythnos honno. Pwysleisiodd y Cynghorydd David Smith yr angen i'r strategaeth cynnal a chadw gael ei hariannu'n briodol dros y cynllun deng mlynedd o hyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yn Nghynllun Cyfalaf 2017/18 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.*

## 11 CYLLIDEB 2017/18 – CYNIGION TERFYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a oedd yn nodi goblygiadau ariannol Setliad Llywodraeth Leol 2017/18 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2017/18, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Trafododd y Cynghorydd Thompson-Hill broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb yn fras gan ymhelaethu ar y cynigion i'w hystyried a'u hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2017/18. Roedd y setliad terfynol wedi darparu cynnydd ariannol o 0.6% ond roedd yn doriad mewn gwirionedd gan nad oedd yn ystyried chwyddiant na phwysau'r galw am wasanaethau. Cyfeiriwyd at nifer o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru y gallent fod o fantais ariannol i'r Cyngor ond nid oeddent yn rhan o'r setliad ariannol ac felly nid oeddent yn effeithio ar y gyllideb ar gyfer 2017/18. O ran Treth y Cyngor, ystyrid cynnydd arfaethedig o 2.75% yn synhwyrol ac yn gynaliadwy.

Trafododd y Cabinet gynigion ar gyfer y gyllideb a chanolbwyntiai'r trafod ar y canlynol –

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Eryl Williams y pwysau sylweddol a oedd ar gyllidebau ysgolion, yn enwedig ar gyfer ariannu disgyblion a chanddynt anghenion arbennig drwy'r system addysg, a dylid adolygu hynny i leihau'r problemau yn y dyfodol
- roedd balansau ysgolion wedi lleihau'n sylweddol yn ddiweddar, ac fe ganmolwyd y gwaith a oedd yn cael ei wneud gydag ysgolion i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Cododd y Cynghorydd Bobby Feeley ei phryderon hi ynglŷn â phwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol gan holi a oedd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yn ddigon i helpu i fynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod y pwysau parhaus ar ofal cymdeithasol wedi cael ei gydnabod a bod swm o £750,000 wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gyda chynlluniau am gynnydd pellach ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, derbyniwyd na fyddai £750,000 yn cwrdd â'r lefel bresennol o orwariant (£2m) ac nid oedd modd cwrdd â'r pwysau llawn a oedd yn weddill ym mhob gwasanaeth; byddai angen gwneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol. Ystyriwyd y cynnydd o 2.75% yn lefel synhwyrol a chynaliadwy. Byddai wedi bod angen cynyddu Treth y Cyngor y tu hwnt i'r lefel wedi'i chapio i gwrdd â'r holl bwysau cyfredol. Cyfeiriodd y swyddogion at y cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn debygol o fod ar ffurf grant a fyddai'n cael ei reoli wrth symud ymlaen
- soniodd y Cynghorydd David Smith am y cyllid cyfyngedig a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i gwrdd â chostau'r Cyngor wrth adfer gwasanaethau cludiant ar ôl i GHA Coaches fynd drwyddi

- ni phenderfynwyd hyd yma ar swm y cyllid ar gyfer Sir Ddinbych, ond ni fyddai'n ddigon i gwrdd â'r holl gostau ychwanegol. Un taliad fyddai'r Cyngor yn ei dderbyn, heb unrhyw ddarpariaeth barhaus. Byddai angen trafod ymhellach o ran trefniadau rheoli ar gyfer darparu gwasanaethau'n barhaus

Cytunodd y Cabinet bod y gyllideb arfaethedig yn gynhwysfawr ac yn gynaliadwy yn y tymor byr a'i bod yn caniatáu i'r Cyngor nesaf allu buddsoddi rhywfaint.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2017/18; a*

*(b) chefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yng ngweithdy'r gyllideb a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016, a chan hynny'n eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn gosod cyllideb derfynol 2017/18; ac*

*(c) argymell i'r Cyngor mai'r cynnydd cyfartalog sydd ei angen yn Nhreth y Cyngor i gefnogi'r gyllideb yw 2.75%.*

**12 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a nodai'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- rhagwelwyd tanwariant net o £1.070miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- cyflawnwyd 68% o arbedion hyd yma (targed o £5.2miliwn) ac roedd 2% arall yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael ei ohirio a'i gyflawni yn 2017/18 a 5% yn unig o arbedion fyddai heb eu cyflawni o fewn yr amserlen
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo trosglwyddo £1miliwn o'r gyllideb Gorfforaethol ac Amrywiol i Gronfa Lliniaru'r Gyllideb i hwyluso cyflawni'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ynghyd ag argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol mewn perthynas â phrosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif Ysgol Llanfair.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- roedd yr Arweinydd yn falch o nodi cynnydd yr achos busnes ar gyfer Ysgol Llanfair a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y rhai a oedd ynghlwm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd
- sicrhaodd y swyddogion bod trafodaethau rheolaidd â'r Corff Llywodraethu ac, yn dilyn cael cymeradwyaeth y Cabinet ar argymhellion y prosiect, byddai amserlen eglur yn cael ei llunio a'i rhannu. Roedd y Corff Llywodraethu eisoes wedi bod yn ynghlwm â'r camau cynllunio cychwynnol ar gyfer adeilad newydd

yr ysgol.  Cytunwyd y byddai penderfyniad y Cabinet ynglŷn â phrosiect Ysgol Llanfair yn destun datganiad i'r Wasg. Cytunwyd y dylid cael gwared â chyfeiriadau at Bentrecelyn o adroddiadau'r dyfodol ar yr eitem hon a bod argymhellion unigol yr adroddiadau'n cael eu rhifo'n briodol

- cyfeiriwyd at safbwyntiau'r Ysgrifennydd Addysg am gefnogi ysgolion bach gwledig a ph'un a fyddai effaith ar gynigion ad-drefnu ysgolion y Cyngor o ganlyniad i'w chyhoeddiad diweddar
- dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams y byddai mwy o drafod ar y materion hynny ar yr adeg briodol yn rhan o adolygiadau ardaloedd yn y dyfodol ac wrth ystyried cynigion Band B yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

*(b) cymeradwyo trosglwyddo £1miliwn o'r gyllideb Gorfforaethol ac Amrywiol i Gronfa Lliniaru'r Gyllideb er mwyn hwyluso cyflawni'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) sydd angen cyfraniad ariannol ychwanegol o£1miliwn ar gyfer 2018/19 er mwyn lliniaru a lleihau effeithiau'r gostyngiadau a ragwelir mewn cyllid dros nifer o flynyddoedd, ac*

*(c) wedi ystyried argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol o ran prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif Ysgol Llanfair, bod y Cabinet yn -*

- *cefnogi cyflwyno Achos Busnes ar gyfer adeilad ysgol newydd i Ysgol Llanfair (Atodiad 5) gerbron Llywodraeth Cymru;*
- *cymeradwyo'r gyllideb gyffredinol o £5.369miliwn yn ffurfiol fel y'i manylir yn yr achos busnes*
- *cefnogi'r cynnig i brynu tir yn Llanfair, mewn egwyddor, i hwyluso datblygiad yr ysgol newydd.*

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried ac fe nododd yr Aelodau ychwanegu eitem ar 'Eithriad i Gontract Y Dyfodol – Cynnig Cytundeb Cefnogi Pobl a Phartneriaeth Clwyd Alyn' ar gyfer mis Chwefror.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y Wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD****, dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.*

## 14 ADFEDDU MANTEISION CYFAMODAU CYFYNGOL AR RODFA'R DWYRAIN, Y RHYL I HWYLUSO CYFLAWNI CYMAL LLETYGARWCH ARFAETHEDIG Y DATBLYGIAD GLAN MÔR

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol a oedd yn argymell adfeddu cyfamodau cyfyngol fel y'u nodwyd i hwyluso cyflawni'r Cymal Lletygarwch arfaethedig o Ddatblygiad Glan Môr y Rhyl.

Eglurwyd y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad yn sgil y cyfamodau amrywiol a oedd yn rhwystro defnyddio'r tir a'r effaith o ganlyniad i hynny ar y datblygiad. Eglurwyd materion penodol gan y swyddogion yn atebion i gwestiynau'r aelodau ar hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r broses gyfreithiol a'r canlyniadau posibl, gan gynnwys amserlenni a'r goblygiadau ariannol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cyngor adfeddu'r cyfamodau cyfyngu sy'n cyd-fynd â'r tir sydd ag amlinell goch yn Atodiad A yr adroddiad.*

## 15 TIR YN TIRIONFA, FFORDD GALLT MELYD, RHUDDLAN

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol a oedd yn argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan bod y tir a nodwyd yn ychwanegol i anghenion ac y dylid ei waredu am hynny fel y nodir yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi hanes perchnogaeth a chynllunio'r darnau o dir y cyfeiriwyd atynt yn yr achos hwn a'r rhesymau dros y cynigion ar gyfer y safle yn dilyn trafod â pherchennog tir sy'n taro arno ar y ffordd ymlaen. Holodd y Cabinet ynglŷn â threfniadau mynediad at y darnau o dir a nodwyd, ynghyd â dosbarthiadau'r tir, ac fe nodwyd cymhlethdodau'r safle. Cyfeiriwyd at safbwyntiau'r Aelodau Lleol ond derbyniwyd na fyddai cyfyngiad o'r math ar y tir yn ffafriol i gael po fwyaf bosibl o incwm wrth gael gwared ag o ac y byddai perchennog trydydd parti'r tir yn gwrthwynebu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo –*

*(a) datganiad bod y tir glas (fel y'i nodir yn Atodiad 1 ynghlwm i'r adroddiad) yn ychwanegol i anghenion y Cyngor a chymeradwyo cael gwared ag o ar y farchnad agored;*

*(b) llunio Cytundeb Perchnogaeth Tir gyda pherchennog y tir coch (fel y'i nodir yn Atodiad 1 ynghlwm i'r adroddiad) a diddymu'r cyfamod ar y tir coch sy'n eiddo i drydydd parti yn gyfnewid am hawl tramwy dros y tir coch er budd i'r tir glas a melyn sy'n eiddo i'r Cyngor, a*

*(c) chael gwared â'r tir coch, gwyrdd a glas (fel y'i nodir yn Atodiad A ynghlwm i'r adroddiad) ar y cyd â'r perchennog sy'n taro ar y tir, a bod y Cyngor yn derbyn 66.05% o elw net y gwerthiant yn dilyn tynnu'r costau y cytunwyd arnynt am gael caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y tir coch a glas yn unig.*

## 16 BOD YNYS FARM, RHEWL, RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan y fferm a'r tir a nodwyd yn ychwanegol i anghenion a chymeradwyo cael gwared ag o, yn unol â hynny.

Ystyriodd y Cabinet nodweddion y cynnig ac fe nodwyd bod cael gwared â'r tir yn cyd-fynd â strategaeth ystadau amaethyddol y Cyngor ac y byddai'n creu cyfalaf, er y byddai ychydig o bwysau ar wasanaethau trwy golli incwm rhenti. Holodd y Cynghorydd Joan Butterfield gwestiynau cyffredinol ynglŷn â chael gwared ag ystadau amaethyddol ac fe'i cyfeiriwyd at Grŵp Gwaith Ystadau Amaethyddol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo datgan Bod Ynys Farm, sydd ag amlinell goch ar y cynlluniau yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn ychwanegol i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared â'r fferm.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.